**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Llywodraeth Cymru

31 Ionawr 2019

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019**

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 30C ar gyfer y rheoliadau a enwir uchod, yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2019.

Hoffwn dynnu eich sylw at nifer o bryderon sydd gennym ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae a wnelo Protocol Nagoya â mynediad at adnoddau genetig (Rheoliad 511/2014 yr UE). Dywed Llywodraeth Cymru nad yw'n ymarferol bosibl i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â Phrotocol Nagoya yn annibynnol ar Lywodraeth y DU. Felly, rhoddir swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig esboniad dros hyn. Rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth fanwl am y pwynt hwn.

O ran gweddill Rheoliadau'r UE (a'r un Gyfarwyddeb) sy'n ymwneud â meysydd polisi datganoledig, sef:

- Llygryddion Organig Parhaus (Rheoliad 850/2004 y CE);
- Cofrestr Ewropeaidd ynghylch Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion (Rheoliad 166/2006 y CE);

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

- Mercwri (Rheoliad 2017/852 yr UE); ac
- Allyriadau Diwydiannol (Cyfarwyddeb 2010/75 yr UE (a ddisgrifir yn natganiad Llywodraeth Cymru fel "mabwysiadu casgliadau BAT"))

dywed Llywodraeth Cymru nad oes dim effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.  Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r honiad hwn yn gywir, felly dyma ofyn am eglurhad pellach.

Pan roddir swyddogaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn maes a ddaw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gallai hyn gael yr effaith o gyfyngu ar allu'r Cynulliad i ddeddfu yn y maes hwn. O dan baragraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ni all Deddf y Cynulliad ddileu nac addasu swyddogaeth Gweinidog y Goron sy'n ymwneud (ymhlith pethau eraill) â rheoli llygredd adnoddau dŵr oni bai bod Llywodraeth y DU yn cydsynio.

Os yw'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â rheoli llygredd o'r fath, yna ni fydd gan y Cynulliad gymhwysedd i gael gwared â'r swyddogaeth honno heb gydsyniad Llywodraeth y DU.  Mae hyn er gwaethaf y ffaith y bydd y swyddogaeth yn gweithredu mewn maes datganoledig.

Am y rheswm hwnnw, rydym yn gofyn am fanylion pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch a oes unrhyw rai o'r swyddogaethau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â rheoli llygredd adnoddau dŵr (neu unrhyw fater arall a restrir ym mharagraff 11 (1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb ac eglurhad ar y materion hyn erbyn 7 Chwefror 2019.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn gywir

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.